OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 Rhif 992 (Cy. 173)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffyrdd yr A40 a'r A477 (Sanclêr, Sir Gaerfyrddin) (Terfyn Cyflymder 40 mya a Dileu Cyfyngiadau) 2019

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *4 Mehefin 2019* |
| *Yn dod i rym* | *7 Mehefin 2019* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd yr A40 a Chefnffordd yr A477, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 82(2), 83(1), 84(1)(a) a (2), a 124(1)(d) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**)**,** a pharagraff 27(1) o Atodlen 9 iddi, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Dyfed-Powys, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi, Cychwyn a Dehongli

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A40 a'r A477 (Sanclêr, Sir Gaerfyrddin) (Terfyn Cyflymder 40 mya a Dileu Cyfyngiadau) 2019 a daw i rym ar 7 Mehefin 2019.

**2.**Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**2**);

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr

(**1**) 1984 p. 27; diwygiwyd adrannau 82(2) ac 83(1) gan adran 168 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22), a pharagraffau 59(3) a 60(2) o Atodlen 8 iddi. Amnewidiwyd adran 84(1) gan adran 45(2) o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p. 40). Amnewidiwyd adran 84(2) gan baragraff 61 o Atodlen 8 i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22). Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(**2**) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8(2) i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "y gefnffordd/cefnffyrdd" ("*the trunk road(s)*") yw Cefnffordd yr A40 Llundain i Abergwaun a Chefnffordd yr A477 Sanclêr i Ddoc Penfro;

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

**Cyfyngiad**

**3.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

**Dileu Cyfyngiadau**

**4.** Bydd y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn yn peidio â bod yn ffordd gyfyngedig at ddibenion adran 81 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

**Dirymiadau**

**5.** Mae Gorchymyn y Gefnffordd (Sanclêr, Dyfed) (Ffyrdd Cyfyngedig) 1981(**3**), Gorchymyn y Gefnffordd (Sanclêr, Dyfed) (Terfyn Cyflymder 40 mya) 1982(**4**) a Gorchymyn Cefnffordd yr A477 (Cylchfan Sanclêr i Gyffordd Bace, Sir Gaerfyrddin) (Terfyn Cyflymder 40 mya) 2004(**5**) wedi eu dirymu.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 4 Mehefin 2019

*Richard Morgan*
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

---

(**3**) O.S. 1981/243
(**4**) O.S. 1982/348
(**5**) O.S. 2004/74 (Cy. 8)

**YR ATODLENNI**
**Darnau o Gefnffyrdd yr A40 a'r A477 yn Sanclêr, Sir Gaerfyrddin**

## ATODLEN 1
**Terfyn Cyflymder 40 mya**

Y darn o gefnffordd yr A40 sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr ddwyreiniol Cylchfan Sanclêr hyd at bwynt 70 metr i'r dwyrain o'r gyffordd honno.

Y darn o gefnffordd yr A40 sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr orllewinol Cylchfan Sanclêr hyd at bwynt 200 metr i'r gogledd-orllewin o'r gyffordd honno.

Y darn o gefnffordd yr A477 sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr dde-orllewinol Cylchfan Sanclêr hyd at bwynt 93 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd sy'n arwain i Bace, sef cyfanswm pellter o 875 o fetrau.

Y darn cyfan o gerbytffordd gylchredol Cylchfan Sanclêr.

## ATODLEN 2
**Dileu Cyfyngiadau**

Y darn o gefnffordd yr A40 sy'n ymestyn o bwynt 70 metr i'r dwyrain o'i chyffordd ag ochr ddwyreiniol Cylchfan Sanclêr hyd at bwynt 1,385 o fetrau i'r dwyrain o'r gyffordd honno.

Y darn o gefnffordd yr A40 sy'n ymestyn o bwynt 200 metr i'r gogledd-orllewin o'i chyffordd ag ochr orllewinol Cylchfan Sanclêr hyd at bwynt 790 o fetrau i'r gogledd-orllewin o'r gyffordd honno.

Y darn o gefnffordd yr A40 sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r A4066 y Stryd Fawr hyd at ei chyffordd â phrif gerbytffordd yr A40 tua'r dwyrain.